Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**11 Tachwedd 2024**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Ymateb yr heddlu i stelcio: Adroddiad ar yr uwch-gŵyn a wnaed gan Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh ar ran y Consortiwm Stelcio Cenedlaethol**

Mae ymateb yr heddlu i stelcio'n faes plismona y mae fy Swyddfa wedi craffu arno o'r blaen. Yn benodol, mewn perthynas â rheoli troseddwyr stelcio. Fel y nodir isod, yr wyf hefyd wedi comisiynu gwasanaeth eiriolaeth stelcio wedi'i deilwra ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys yn ddiweddar.

Rwy'n croesawu ac yn derbyn canfyddiadau ac argymhellion yr Adroddiad ar yr uwch-gŵyn stelcio a drafodais gyda'r Prif Gwnstabl mewn cyfarfod o'm Bwrdd Plismona ar 24 Medi 2024.

Mae un o 27 argymhelliad yr adroddiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh) yn unig, tra bod dau yn argymhellion a rennir ar gyfer Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu. Mae gweddill yr argymhellion yn yr adroddiad ar gyfer Prif Gwnstabliaid yn unig, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer stelcio ac aflonyddu, a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Gofynnwyd i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu gyflwyno ymateb i'r adroddiad hwn a'r tri argymhelliad perthnasol i Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a fydd, yn ei thro, yn cyflwyno ymateb ar ran Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (AHGTAEF) erbyn y terfyn amser ar gyfer ymateb statudol. Bydd AHGTAEF yn cyhoeddi crynodeb o ymatebion ar-lein, fodd bynnag, er mwyn sicrhau tryloywder, yr wyf hefyd wedi cyhoeddi'r ymateb ar wahân hwn ar fy ngwefan, sydd, yn unol â'r uchod, yn canolbwyntio ar dri argymhelliad.

**Argymhelliad 15 (ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu)**
**Erbyn 27 Mawrth 2025, adolygu pa un ai a yw'r gwasanaethau arbenigol iawn wedi'u comisiynu i gefnogi dioddefwyr stelcio yn eu hardal, gan gynnwys darpariaeth gweithwyr achos eiriolaeth stelcio annibynnol hyfforddedig.**
**Dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'u meiri cyfatebol ddarparu'r gwasanaethau gofynnol lle nad ydynt yn bodoli, a dylent ystyried cydweithio ar draws ffiniau heddluoedd er mwyn darparu gwasanaethau pe bai'n effeithiol ac effeithlon gwneud hynny.**

Ers 1 Medi 2024, mae fy Swyddfa wedi comisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth Stelcio Cenedlaethol Paladin, sydd ar hyn o bryd yn cael ei gydnabod fel

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

arweinwyr arfer gorau cenedlaethol ym maes y farchnad ar gyfer darpariaeth cymorth Gweithiwr Achos Eiriolaeth Stelcio Annibynnol, i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth stelcio wedi’i deilwra ar draws ardal HDP.

Cyflwynwyd y cynllun peilot blwyddyn o hyd hwn oherwydd fe nodwyd bwlch o ran darpariaeth cymorth arbenigol ar gyfer dioddefwyr stelcio ledled yr ardal Heddlu, a’r perygl yr oedd hyn yn cyflwyno. Roedd y gweithgarwch craffu y sonnir amdano uchod o ran plismona troseddwyr stelcio hefyd yn argymell bod fy nhîm a minnau’n ystyried y cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr stelcio.

Mae’r cynllun peilot yn ceisio profi a gwella’r ymateb i ddioddefwyr stelcio yn yr ardal Heddlu. Mae’r cynllun peilot yn cynnig eiriolaeth i ddioddefwyr stelcio perygl uwch drwy'r system cyfiawnder troseddol a chymorth/cyngor untro i weithwyr proffesiynol sy’n cefnogi dioddefwyr perygl is a chymedrol. Mae swydd Gweithiwr Achos Eiriolaeth Stelcio Annibynnol amser llawn wedi’i datblygu ar gyfer ardal HDP yn unig.

Ar yr un pryd, bydd Paladin yn cyflwyno hyfforddiant amlasiantaethol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd eisoes yn gweithio gyda dioddefwyr, er mwyn sicrhau bod gan wasanaethau sy’n bodoli eisoes, megis Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol, Eiriolwyr Trais Rhywiol Annibynnol ac Eiriolwyr Dioddefwyr, sgiliau priodol i gefnogi dioddefwyr sy’n profi stelcio ochr yn ochr â cham-drin domestig a thrais rhywiol.

Er bod y berthynas weithio gyda Paladin yn ei babandod, mae HDP eisoes wedi adrodd am sawl ymgysylltiad cadarnhaol rhwng y Gweithiwr Achos Eiriolaeth Stelcio a’r Heddlu. Bydd y cyfnod peilot yn darparu tystiolaeth i bennu cynnig tymor hirach ar gyfer darpariaeth gwasanaeth.

Ar hyn o bryd, does dim arian wedi’i neilltuo gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer gwasanaethau stelcio yn yr un ffordd ag y mae swyddi eiriolaeth trais rhywiol a cham-drin domestig wedi’u blaenoriaethu. Byddai o fydd i hyn gael ei ystyried wrth bennu cyllid yn y dyfodol, fel bod gwasanaethau cymorth stelcio’n gallu cael eu cefnogi gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu â chyllid penodol wedi’i flaenoriaethu. Fel arall, mae’r gwasanaethau hyn yn gweithredu mewn cystadleuaeth â gwasanaethau dioddefwyr sy’n bodoli eisoes gan fod arian grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder eisoes yn gwbl neilltuedig.

**Argymhelliad 16 (ar gyfer Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu)**
**Erbyn 27 Mawrth 2025, cydweithio i adolygu trefniadau comisiynu a gwneud newidiadau cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau eu bod yn ymgorffori cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng plismona a gwasanaethau sy’n rhoi cymorth i ddioddefwyr stelcio.**

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Yn ogystal ag ymgorffori Paladin o fewn y sector darpariaeth ehangach, maen nhw eisoes yn gysylltiedig â Grŵp Gweithredol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol HDP a'r Ganolfan Fregusrwydd a grwpiau canolog eraill y sector arbenigol.

Byddant yn ymgorffori eu gwasanaeth o fewn y llwybr presennol er mwyn sicrhau bod cyfeiriadau'n llyfn ac yn darparu ymateb sy'n seiliedig ar angen arbenigol a lefelau risg.

O ganlyniad i'r cysylltiadau gweithio agos hyn, gallai Paladin hefyd fod yn gysylltiedig â phrosesau'r Gynhadledd Amlasiantaethol Asesu Risg.

**Argymhelliad 25 (ar gyfer Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu)**
**Erbyn 27 Mawrth 2025, archwilio i gyfleoedd ar gyfer gwella'r ffordd mae eu heddlu'n gweithio gyda phartneriaid ar gyfer cyfrannu at ymateb amlasiantaethol i stelcio. Dylai hyn gynnwys ystyried:**

- **Sut mae'r heddlu'n gweithio mewn partneriaeth â gofal iechyd, GEG, gwasanaethau prawf a phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill er mwyn rheoli troseddwyr stelcio a mynd i'r afael â'u hymddygiad.**
- **A ddylent gydweithio â heddluoedd eraill i gyfrannu'n effeithiol ac effeithlon at bartneriaethau amlasiantaethol ar stelcio a sut.**
- **Sut mae trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd yn cael eu defnyddio i reoli troseddwyr stelcio'n effeithiol.**

- Mae Cydlynydd Stelcio Cam-drin Domestig HDP yn canolbwyntio ar reoli'r perygl a gyflwynir gan droseddwyr. Mae'r Cydlynydd Stelcio Cam-drin Domestig, a ariennir gan fy Swyddfa i a HDP, yn gweithio gyda'r Cydlynydd Gorchmynion Sifil (swydd newydd) er mwyn sicrhau bod pob troseddwr stelcio y nodir ei fod yn cyflwyno perygl uwch yn cael ei ystyried ar gyfer Gorchymyn Gwarchod Rhag Stelcio.
  Ers bod yn y swydd, mae'r Cydlynydd Stelcio Cam-drin Domestig wedi sefydlu Clinig Stelcio misol lle mae troseddwyr stelcio perygl/niwed uwch yn cael eu trafod, ynghyd â dioddefwyr mynych â/neu bryder uwch. Cyflwynir enwebiadau gan Ardaloedd Plismona Lleol, y Ganolfan Fregusrwydd, y Cydlynydd Stelcio Cam-drin Domestig, a'r tîm Rheoli Troseddwyr yr Integredig. Ystyrir enwebiadau gan bartneriaid allanol hefyd.
  Mae HDP yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd ymateb amlasiantaethol i reoli'r perygl a gyflwynir gan droseddwyr stelcio. O'r herwydd, byddant yn ceisio datblygu'r ymagwedd Clinig Stelcio, sydd ar hyn o bryd yn

cynnwys yr heddlu, Seicoleg Fforensig y DU, ymarferwyr iechyd meddwl, a’r Gweithwyr Achos Eiriolaeth Stelcio Annibynnol. Y bwriad yw cynnwys y gwasanaethau Prawf ac Iechyd hefyd o dan egwyddorion Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaethol. Mae gwerthuso heddluoedd sydd wedi gweithredu’r ymagwedd Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Amlasiantaethol yn dangos y gall hyn gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau ymchwiliadau stelcio.

- Bydd SCHTh yn monitro effaith gwasanaeth peilot Paladin i asesu’r galw a phroffil risg y garfan. Yn y dyfodol, gall hyn arwain at gyfleoedd ehangach sy’n gyson â Heddluoedd lleol.
- Mae HDP wrthi’n adolygu’r broses rheoli gorchmynion sifil ac yn cydnabod rhan y trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu’r cyhoedd mewn rheoli troseddwyr stelcio sy’n cyflwyno’r perygl mwyaf. Mae HDP yn datblygu proses lle bydd yr holl droseddwyr sy’n destun Gorchymyn Gwarchod Rhag Stelcio llawn neu dros dro hefyd yn cael eu cyfeirio i’r trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu’r cyhoedd o dan ‘unigolion peryglus posibl’ a’u rheoli o fewn yr Uned Rheoli Troseddwyr.

Yr wyf wedi fy sicrhau bod HDP a’m Swyddfa eisoes yn bodloni elfennau o’r argymhellion uchod, ac yn gweithio tuag at eraill. Byddaf yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn.